Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau Medr

# Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned, Awst 2024 i Orffennaf 2025

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ystadegau:** | Sta/Medr/06/2026 |
| **Dyddiad:** | 18 Mawrth 2026 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol (gweler y newid mewn statws ystadegau achrededig) |
| **E-bost:** | ystadegau@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | **Ystadegau ar lwyddiant a chwblhau prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned yn ol lefel astudio, math o nod dysgu, sector, a nodweddion dysgu** |
| **Thema:** | Prentisiaethau, Dysgu Oedolion yn y Gymuned |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys


Crynodeb ..... 2
- Prentisiaethau ..... 2
- Dysgu oedolion yn y gymuned ..... 3

Prentisiaethau ..... 5
- Lefel rhaglen ..... 5
- Sector ..... 7
- Oedran ..... 9
- Amddifadedd ..... 10
- Cefndir ethnig ..... 12
- Rhesymau dros ddod a phrentisiaethau heb eu cwblhau i ben ..... 14
- Iaith ..... 15
- Anabledd neu anhwaster dysgu ..... 16

Dysgu oedolion yn y gymuned ..... 17
- Math o ddarpariaeth ..... 17
- Maes pwnc sector ..... 18
- Amddifadedd ..... 19
- Anabledd neu anhwaster dysgu ..... 20
- Iaith ..... 21

Nodiadau ..... 22
- Yr hyn sydd wedi newid ..... 22
- Atal mesurau perfformaid yn 2019/20 a 2020/21 ..... 22
- Gwella ystadegau dysgu cymundeol awdurdo lleol ..... 23
- Datganiad cydymffurfiaeth â’r cod ymarfer ar gyfer ystadegau ..... 24
- Newid statws ystadegau achrededig ..... 24
- Ystadegau cysylltiedig ..... 25
- Y diweddariad nesaf ..... 25
- Gwybodaeth gyswllt ..... 25

# Crynodeb


Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno deilliannau prentisiaethau o flwyddyn academaidd 2024/25. Ni chynhyrchwyd y mesurau deilliannau safonol ym mlynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21 oherwydd y pandemig. Ceir rhagor o wybodaeth yn y nodiadau.

## Prentisiaethau

- Cynyddodd cyfradd llwyddo prentisiaethau 2 pwynt canran yn 2024/25 i 77%. Mae'n dal yn is na'r gyfradd cyn pandemig Covid-19.
- Prentisiaethau lefel uwch a ddangosodd yr adferiad cryfaf yn 2024/25.
- Ymhlith y sectorau mwy, roedd cyfradd lwyddo uwch mewn
    - Rheoli a phroffesiynol;
    - Gweinyddu busnes;
    - Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Yr unig sectorau lle gwelwyd y gyfradd lwyddo’n gostwng oedd
    - Adeiladu;
    - Peirianneg.
- Mae'r bwlch yn y gyfradd llwyddo rhwng dysgwyr yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus wedi cau i 2 pwynt canran.
- Roedd y gyfradd lwyddo ar gyfer dysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu 6 phwynt canran yn is na dysgwyr heb anableddau a/neu anawsterau dysgu.
- Roedd deilliannau gweithgareddau prentisiaethau a gwblhawyd yn ddwyieithog ac yn Saesneg yn debyg
- Fe gynyddodd y gyfradd lwyddo ar gyfer grwpiau oedran hŷn, tra bo’r gyfradd lwyddo ar gyfer grwpiau oedran iau wedi aros yn llonydd.

### Cynyddodd cyfradd llwyddo prentisiaethau i 77% yn 2024/25

Ffigur 1: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2015 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Mae'r gyfradd llwyddo prentisiaethau yn parhau i adfer yn dilyn y pandemig. Ceir bwlch o hyd rhwng y gyfradd llwyddo gyfredol a'r cyfraddau llwyddo cyn y pandemig.


[Data ar StatsCymru]

## Dysgu oedolion yn y gymuned

- Cynyddodd y gyfradd cwblhau ar gyfer gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned o 95% yn 2023/24 i 96% yn 2024/25.
- Fe arhosodd y gyfradd lwyddo ar gyfer gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned asesadwy ar 87% yn 2024/25, y tro cyntaf iddi beidio â chynyddu ar ôl y pandemig.
- Y sectorau lle gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cyfraddau llwyddo ar y cyfan oedd
    - Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth;
    - Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig
- Y sectorau lle gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn cyfraddau llwyddo oedd
    - Sgiliau Byw'n Annibynnol;
    - Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu.
- Mewn dysgu a ddarperir gan awdurdodau lleol trwy drefniant breinio gyda sefydliad addysg bellach (AB) y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd lwyddo, er mai dyma oedd y math isaf o ddarpariaeth o hyd.

**Fe arhosodd cyfradd lwyddo dysgu oedolion yn y gymuned ar 87% yn 2024/25**

Ffigur 2: Cyfradd llwyddo dysgu oedolion yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2015 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Fe beidiodd cyfradd lwyddo dysgu oedolion yn y gymuned â chynyddu am y tro cyntaf ar ôl y pandemig. Mae’r gyfradd gwblhau wedi adfer i lefelau cyn y pandemig.

Data ar StatsCymru

## Prentisiaethau

Cynigir prentisiaethau ar 4 lefel:

- Prentisiaethau sylfaen – Lefel 2 (cyfwerth â chymwysterau TGAU graddau A* i C)
- Prentisiaethau – Lefel 3 (cyfwerth â chymwysterau Safon Uwch)
- Prentisiaethau uwch – Lefel 4 i 5 (cyfwerth â gradd sylfaen)
- Prentisiaethau gradd – Lefel 6 ac uwch (cyfwerth â gradd baglor)


Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymdrin â phrentisiaethau sylfaen, prentisiaethau lefel 3, a phrentisiaethau uwch. Nid ydynt yn cynnwys prentisiaethau gradd.

Rhaid i ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth ennill amrywiaeth o gymwysterau er mwyn ennill eu prentisiaeth. Y gyfradd llwyddo yw canran y rhai a adawodd brentisiaethau a gwblhaodd y fframwaith prentisiaeth llawn.

### Lefel rhaglen

**Gwelwyd cynnydd yn y gyfradd llwyddo ar bob lefel prentisiaeth**

Ffigur 3: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl lefel a blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2024




Disgrifiad: Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer pob un o'r tair lefel o brentisiaethau ar eu huchaf ers 2018/19, cyn y pandemig.

[Data ar StatsCymru](#)

Mewn prentisiaethau uwch y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd lwyddo yn 2024/25 gyda chynnydd o 4 pwynt canran, a hon oedd yr ail flynedd o'r bron lle gwelwyd adferiad ar gyfer prentisiaethau uwch, a hwn oedd yr adferiad mawr cyntaf ar ôl y pandemig.


Gwelwyd cynnydd pellach yng nghyfraddau llwyddo prentisiaethau sylfaen a phrentisiaethau lefel 3, a hwnnw'n gynnydd o 2 bwynt canran.

Gellir priodoli'r twf a welwyd yn neilliannau prentisiaethau uwch i'r ffaith bod y ddau sector mwyaf, sef Rheoli a Phroffesiynol; a Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi profi cynnydd o 5 pwynt canran a 3 phwynt canran, yn y drefn honno, mewn cyfraddau llwyddo. Fodd bynnag, mae cyfradd lwyddo Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yn dal i fod islaw'r cyfartaledd ar 62%. Mae'r ddau sector hyn yn rhoi cyfrif am 78% o ymadawyr prentisiaethau uwch.

## Sector

**Ym mwyafrif y sectorau gwelwyd cynnydd yn y gyfradd llwyddo**

Ffigur 4: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl maes pwnc sector a blwyddyn academaidd, Awst 2023 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Y sectorau lle gwelwyd y cynnydd mwyaf oedd Amaethyddiay; a Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid. Adeiladu; a Peirianneg gwelwyd y gostyngiadau.

[Data ar StatsCymru]

O'r 13 sector, gwelyd cynnydd yng nghyfraddau llwyddo 11 ohonynt o 2023/24 i 2024/25. Y 2 sector a oedd yn weddill gwelyd cyfradday llwyddo is yn 2024/25.

Adeiladu yw'r sector â'r gyfradd lwyddo isaf o hyd ac fe welwyd deilliannau is yn y sector hwn mewn blynyddoedd olynol. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod cyfran uwch o

ymadawyr â phrentisiaethau lefel 3, sydd â deilliannau is fel rheol. Fe ddechreuodd yr holl brentisiaethau adeiladu ar lefel 3 yn lle lefel 2 o fis Medi 2022 ymlaen. Fodd bynnag, fe wellodd deilliannau prentisiaethau adeiladu lefel 3 eu hunain o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.


Roedd y rhai na wnaethant gwblhau prentisiaethau adeiladu'n fwy tebygol o adael i fynd i gyflogaeth na phrentisiaid mewn sectorau eraill. Fe wnaeth 24% o'r prentisiaid adeiladu na wnaethant gwblhau adael i fynd i gyflogaeth, tra bo 13% o'r holl brentisiaid na wnaethant gwblhau wedi gadael am yr un rheswm. Roedd gan y fframwaith adeiladu "Adeiladu – gyda chraidd sylfaen" nifer arbennig o uchel o ymadawyr a aeth i gyflogaeth. Fe adawodd llai o brentisiaid adeiladu oherwydd "methu", gyda 38% yn gwneud hynny o'i gymharu â 55% o'r holl brentisiaid na wnaethant gwblhau.

Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r sector mwyaf o hyd ac mae'n rhoi cyfrif am 42% o'r holl ymadawyr â phrentisiaethau yn 2024/25. Fe dyfodd y gyfradd lwyddo ar gyfer Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus 3 phwynt canran yn 2024/25 sydd wedi cynorthwyo adferiad parhaus deilliannau prentisiaethau. Fodd bynnag, mae cyfradd lwyddo Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yn dal i fod yn is na 10 o'r 13 sector. Peirianneg; ac Adeiladu oedd y pedwerydd a'r pumed sector mwyaf yn 2024/25, yn y drefn honno, ac fe welwyd cyfraddau llwyddo is yn y ddau.

## Oedran

### Gwelodd gwrpiau oedran hŷn y gwelliannau mwyaf

Ffigur 5: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl oedran ar ddechrau prentisiaeth yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2022 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Pobl ifanc 19 oed oedd y prentisiaid a berfformiodd orau gyda chyfradd llwyddo o 80%.

Data ar StatsCymru


Y grŵp oedran a berfformiodd waethaf oedd y rhai rhwng 50 a 64 oed gyda chyfradd llwyddo o 72%. Fodd bynnag roedd hyn yn gynnydd o 2 pwynt canran o gymharu â 2023/24.

Y grŵp oedran â'r nifer fwyaf a adawodd brentisiaeth oedd y grŵp 25 i 49 oed. Y dysgwyr hyn oedd i gyfrif am 52% o'r holl rai a adawodd brentisiaeth ac welodd y cynydd mwyaf yn gyfradd llwyddiant yn 2024/25 o 4 pwynt canran.

## Amddifadedd

**Mae’r bwlch yng nghyfradd llwyddo rhwng yr ardaloedd mwyaf amddifadus a lleiaf amddifadus wedi cau i 2 pwynt canran**

Ffigur 6: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a blwyddyn academaidd, Awst 2023 i Orffennaf 2025





Disgrifiad: Gwelyd cyfradday llwyddo uwch mewn pob cwintel yn 2024/25 o gymharu â 2023/24.

[Nodyn]: Mae’r siart hon yn seiliedig ar amddifadedd yr ardal fechan y mae dysgwr yn byw ynddi. Nid yw'n seiliedig ar amddifadedd y dysgwr ei hun. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn amddifadus yn byw mewn ardaloedd amddifadus, ac fel arall. Mae'r cwintel 1af yn cynrychioli'r 20% o ardaloedd mwyaf amddifadus, a'r 5ed yn cynrychioli'r 20% o ardaloedd lleiaf amddifadus.

Data ar StatsCymru

**Mae’r bwlch yn y gyfradd llwyddo rhwng prentisiaid a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw bryd, ac nad oeddent fyth yn gymwys ar gyfer hynny wedi cynyddu**

Ffigur 7: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim (PYD) fesul blwyddyn academaidd, Awst 2016 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Roedd gan brentisiaid a oedd wedi bod yn gymwys i dderbyn PYD ar unrhyw bryd gyfradd llwyddo o 72% yn 2023/24. Roedd hyn yn fwlch o 8 phwynt canran o gymharu â phrentisiaid nad oeddent erioed wedi bod yn gymwys i gael PYD.

[Nodyn]: Caiff cymhwystra i gael Prydau Ysgol am Ddim ei gyfrifo drwy baru dysgwyr â'u cofnod yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) drwy'r set ddata addysg gyfatebol (MED). Ni ellir paru pob dysgwr (Cyfradd baru o 43% yn 2024/25), er enghraifft, dysgwyr a fynychodd ysgol uwchradd y tu allan i Gymru neu o'r cyfnod cyn 2010/11 (blwyddyn gyntaf cofnodion yn MED).

Data ar StatsCymru

Mae dysgwyr sy’n byw mewn cymdogaethau amddifadus yn fesur o amddifadedd sy’n seiliedig ar ardal. Mae cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim yn fesur dirprwy ar gyfer profiad unigolyn o amddifadedd.

Mae’r ddau fesur hyn yn dangos patrymau gwahanol. Fe grebachodd y bwlch amddifadedd yn y mesur sy’n seiliedig ar ardal, ond fe dyfodd yn y mesur ar gyfer unigolyn.


Y rheswm dros y gwahaniaeth mewn patrymau yw nad yw dysgwyr yn cael eu cynnwys yn y mesur prydau ysgol am ddim os na ellir eu paru â chofnod ysgol yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd arbennig o fawr mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr na ellid eu paru ac a oedd yn byw mewn ardaloedd amddifadus.

Rhesymau posibl cyffredin dros fethu â pharu dysgwr â chofnod ysgol yng Nghymru yw am eu bod wedi mynd i ysgol uwchradd y tu allan i Gymru, neu eu bod yn ddigon hen fel eu bod wedi gorffen ysgol cyn 2010/11.

## Cefndir ethnig

### Gwelwyd y gwelliant mwyaf mewn cyfraddau llwyddo ymhlith dysgwyr â chefndir Asiaidd

Ffigur 8: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl grŵp ethnig manwl a blwyddyn academaidd, Awst 2023 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Gwelwyd y gwelliant mwyaf mewn cyfraddau llwyddo ymhlith dysgwyr â chefndir “Bangaldeshaidd” gyda chynnydd o 18 pwynt canranol. Deuai'r dysgwyr â'r gostyngiad mwyaf o gefndiroedd “Unrhyw gefndir Cymysg neu Aml-ethnig arall”.

[Nodyn]: Nid yw rhai grwpiau ethnig wedi'u dangos gan fod niferoedd wedi'u hatal yn sgil cohortau bach.

[Data ar StatsWales]


O’r 15 o grwpiau ethnig yn y siart, fe gynyddodd y gyfradd lwyddo ar gyfer 9. Dysgwyr o gefndir ethnig “Gwyn a Du Affricanaidd” oedd â’r gyfradd lwyddo uchaf, sef 90%. Dysgwyr o gefndir ethnig “Unrhyw gefndiroedd cymysg neu luosog eraill” oedd â’r gyfradd lwyddo isaf, sef 69%.

Gwelwyd cynnydd o 12 pwynt canran yng nghyfradd lwyddo dysgwyr o gefndir “Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig” yn 2024/25. Hefyd, roedd 49% yn fwy o ymadawyr o’r cefndir ethnig hwn yn 2024/25 o’i gymharu â 2023/24.

## Rhesymau dros ddod a phrentisiaethau heb eu cwblhau i ben

### Methu oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros ddod â phrentisiaethau i ben

Ffigur 9: Rheswm dros ddod â phrentisiaeth i ben yn ôl lefel y brentisiaeth, Awst 2024 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Yr ail reswm mwyaf cyffredin dros ddod â phrentisiaethau heb eu cwblhau i ben oedd "wedi cael swydd", ac yna "rhesymau personol"

Data yn nhabl 1.5 yn y llyfr gwaith cysylltiedig


“Methu” oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros ddod â phrentisiaethau sylfaen heb eu cwblhau i ben, gyda 55% yn dod i ben oherwydd hynny.

Gwelwyd patrwm tebyg mewn prentisiaethau sylfaen a phrentisiaethau lefel 3 lle mai “methu” oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros adael prentisiaeth gyda “wedi mynd i gyflogaeth” yn ail. “Methu” oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros adael prentisiaethau uwch hefyd, ond “rhesymau personol” oedd yr ail reswm mwyaf cyffredin.

## Iaith

**Roedd deilliannau gweithgareddau prentisiaethau a gwblhawyd yn ddwyieithog ac yn Saesneg yn debyg**

Ffigur 10: Cyfradd llwyddo prentisiaethau yn ôl rhaglen a chyfrwng iaith, Awst 2024 i Orffennaf 2025.




Disgrifiad: Gweithgareddau a gaiff eu hastudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg sydd â'r gyfradd llwyddo uchaf.

[Nodyn 1]: Mae gweithgareddau Cymraeg yn rhoi cyfrif am lai na 1% o’r holl weithgareddau a wnaed.

Data yn nhabl 1.7 yn y llyfr gwaith cysylltiedig

Gweithgareddau a gyflawnwyd yn gyfan gwbl yn y Gymraeg gan brentisiaid sylfaen oedd â'r gyfradd llwyddo uchaf, sef 93%. Roedd gan weithgareddau a gyflawnwyd yn gyfan gwbl yn y Gymraeg gyfraddau llwyddo uwch na gweithgareddau a gyflawnwyd drwy gyfryngau eraill ar bob lefel.


Y gyfradd llwyddo isaf oedd 68% ar gyfer gweithgareddau dwyieithog a gyflawnwyd gan brentisiaid uwch, roedd y patrwm hwn yn gyson â 2023/24.

Nid yw'r gwahaniaeth mewn cyfraddau llwyddo o reidrwydd yn deillio o'r cyfrwng dysgu. Gall dysgwyr cyfrwng Cymraeg fod â nodweddion gwahanol i brentisiaid eraill - er enghraifft, efallai eu bod yn llai tebygol o ddod o gefndiroedd amddifadus, neu'n fwy tebygol o gyflawni math neilltuol o brentisiaeth. Gellir astudio mathau penodol o weithgareddau yn y Gymraeg.

## Anabledd neu anhwaster dysgu

**Mae’r bwlch yng nghyfradd llwyddo prentisiaethau rhwng dysgwyr anabledd neu anhwaster dysgu a dysgwyr heb anabledd neu anhwaster dysgu dim wedi newid**

Ffigur 11: Cyfradd lwyddo prentisiaethau yn ôl pa un a oes ganddynt anhawster dysgu neu anabledd hunangofnodedig, Awst 2022 i Gorffennaf 2025




Disgrifiad: Roedd gan ddysgwyr heb anabledd a/neu anhawster dysgu gyfradd lwyddo uwch o’i gymharu â dysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu.

[Nodyn]: Cafodd llai na 0.5% o ddysgwyr na ddarparodd wybodaeth eu cynnwys yn yr enwadur.

Data yn nhabl 1.11 yn y llyfr gwaith cysylltiedig

Yn 2024/25 fe gynyddodd cyfradd lwyddo dysgwyr heb anableddau a/neu anawsterau dysgu i 78% o 75% yn 2023/24.

Fe gododd cyfradd lwyddo dysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu i 72% yn 2024/25, ac fe arhosodd y bwlch o’i gymharu â dysgwyr heb anableddau a/neu anawsterau dysgu ar 6 phwynt canran.


# Dysgu oedolion yn y gymuned

Mae gweithgareddau dysgu oedolion fel arfer wedi'u hanelu at bobl nad ydynt wedi astudio ers cryn amser. Maent yn cael eu cynnig mewn canolfannau cymunedol a rhai colegau. Gall dysgwyr ennill amrywiaeth o gymwysterau ar wahanol lefelau gan ddibynnu ar beth y maent yn ei astudio.

## Math o ddarpariaeth

### Mae’r bwlch yng nghyfradd llwyddo rhwng math o ddarpariaeth yn cau

Ffigur 12: Canlyniadau dysgu oedlion yn y gymuned yn ôl math y ddarpariaeth, Awst 2022 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: 2 bwynt canran oedd yn gwahanu cyfradd lwyddo pob math o ddarpariaeth yn 2024/25, o’i gymharu â bwlch o 7 phwynt canran yn 2023/24.

Data ar StatsCymru


Fe wnaeth y gyfradd lwyddo ar gyfer dysgu a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol ostwng 1 pwynt canran yn 2024/25, tra bo’r gyfradd lwyddo ar gyfer dysgu a ddarperir yn uniongyrchol gan sefydliadau AB wedi cynyddu 1 pwynt canran, gan olygu bod gan y ddau o’r rhain gyfradd lwyddo o 87% erbyn hyn.

Mae cyfradd lwyddo dysgu a ddarperir gan awdurdodau lleol trwy drefniant breinio gyda sefydliad AB wedi gwella’n barhaus ar ôl y pandemig ond dyma oedd y math o ddarpariaeth â’r gyfradd lwyddo isaf o hyd, gan fod 2 bwynt canran y tu ôl i’r mathau eraill.

## Maes pwnc sector

### Fe gynyddodd cyfraddau llwyddo mwayafrif y meysydd pwnc sector

Ffigur 13: Canlyniadau dysgu oedlion yn y gymuned yn ôl maes pwnc sector, Awst 2023 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Adeiladu, cynllunio a’r amgylchedd adeiledig oedd â’r gyfradd lwyddo uchaf.


[Data ar StatsCymru]

Addysg Sylfaenol Oedolion oedd y sector mwyaf yn 2024/25, ac ni newidiodd ei gyfradd lwyddo o gwbl o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Mae sectorau mawr eraill yn cynnwys Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, y bu gostyngiad o 1 pwynt canran yn ei gyfradd lwyddo yn 2024/25, a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, y bu cynnydd o 2 bwynt canran yn ei gyfradd lwyddo o’i gymharu â 2023/24.

## Amddifadedd

**Mae'r bwlch yng nghyfradd llwyddo rhwng yr ardaloedd mwyaf amddifadus a lleiaf amddifadus yng Nghymru dim wedi newid**

Ffigur 14: Cyfradd llwyddo dysgu oedolion yn u gymuned yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a blwyddyn academaidd, Awst 2023 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Yr 2il gwintel oedd yr unig un na phrofodd gynnydd yn ei gyfradd lwyddo

[Nodyn]: Mae'r siart hon yn seiliedig ar amddifadedd yr ardal fechan y mae dysgwr yn byw ynddi. Nid yw'n seiliedig ar amddifadedd y dysgwr ei hun. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn amddifadus yn byw mewn ardaloedd amddifadus, ac fel arall. Mae'r cwintel 1af yn cynrychioli'r 20% o ardaloedd mwyaf amddifadus, a'r 5ed yn cynrychioli'r 20% o ardaloedd lleiaf amddifadus.

Data yn nhabl 2.1 yn y llyfr gwaith cysylltiedig


Yn 2024/25 fe arhosodd y bwlch yn y gyfradd lwyddo rhwng y dysgwyr mwyaf a lleiaf amddifadus ar 2 bwynt canran.

Dysgwyr yn y cwintel lleiaf amddifadus oedd â'r gyfradd lwyddo uchaf, a hithau wedi cynyddu 2 bwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dysgwyr sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf amddifadus oedd â'r gyfradd lwyddo isaf o hyd, 2 bwynt canran yn is nag unrhyw gwintel amddifadedd arall.

## Anabledd neu anhwaster dysgu

### Roedd gan ddysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu a dysgwyr eraill ddeilliannau tebyg

Ffigur 15: Cyfradd lwyddo dysgu oedolion yn y gymuned yn ôl pa un a oes ganddynt anhawster dysgu neu anabledd hunangofnodedig, Awst 2023 i Gorffennaf 2025




Disgrifiad: Caiff deilliannau dysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu a dysgwyr eraill eu gwahanu gan fwlch o 1 pwynt canran yn unig.

[Nodyn]: Cafodd llai na 0.5% o ddysgwyr na ddarparodd wybodaeth eu cynnwys yn yr enwadur.

Data yn nhabl 2.6 yn y llyfr gwaith cysylltiedig


Bu cynnydd o 2 bwynt canran yng nghyfradd lwyddo dysgwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu yn 2024/25, tra bo cyfradd lwyddo dysgwyr heb anabledd a/neu anhawster dysgu wedi gostwng 1 pwynt canran.

Y math mwyaf cyffredin o anabledd oedd dysgwyr ag “Anawsterau corfforol a/neu feddygol”, ac roedd cyfradd lwyddo’r dysgwyr hyn yn 87%.

## Iaith

### Mae deiliannau gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned a wneir yn ddwyieithog ac yn Saesneg yn debyg

Ffigur 16: Canlyniadau dysgu oedlion yn y gymuned yn ôl chyfrwng iaith, Awst 2023 i Orffennaf 2025




Disgrifiad: Gweithgareddau a wnaed yn gyfan gwbl yn Gymraeg oedd â'r deilliannau isaf yn 2023/24 ond yr uchaf yn 2024/25

[Nodyn 1]: Mae gweithgareddau Cymraeg yn rhoi cyfrif am lai na 0.5% o'r holl weithgareddau a wnaed.

[Nodyn 2]: Nid yw unedau dysgu Cymraeg wedi'u cynnwys.

Data yn nhabl 2.8 yn y llyfr gwaith cysylltiedig

Gweithgareddau a wnaed yn Gymraeg yn 2024/25 oedd â'r gyfradd lwyddo uchaf, sef 96%, a oedd yn gynnydd o 15 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ni welwyd unrhyw newid yng nghyfradd lwyddo gweithgareddau a wnaed yn Saesneg neu yn Ddwyieithog.

Nid yw'r gwahaniaeth mewn cyfraddau llwyddo i'w briodoli o anghenraid i'r cyfrwng dysgu. Gall dysgwyr cyfrwng Cymraeg fod â nodweddion gwahanol iawn i ddysgwyr eraill – er enghraifft gallant fod yn llai tebygol o fod o gefndiroedd amddifadus neu'n fwy tebygol o fod yn gwneud gweithgareddau penodol.

# Nodiadau

Ceir tablau ar StatsCymru a thaenlen gysylltiedig ac arni'r holl ddata, a data pellach, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Ceir dogfen wybodaeth atodol ac ynddi wybodaeth bellach am y data yn yr adroddiad hwn.

## Yr hyn sydd wedi newid

Os bydd gennych unrhyw adborth ar y newidiadau hyn, cysylltwch ag ystadegau@medr.cymru.

### StatsCymru

Mae tablau StatsCymru wedi cael eu symud o hen wefan StatsCymru i'r StatsCymru.

Rydym wedi achub ar y cyfle i symleiddio a safoni nifer y tablau sydd ar gael.

Rydym wedi cynyddu nifer y newidynnau ym mhob tabl. Mae rhai tablau a oedd yn y daenlen gysylltiedig bellach wedi'u cynnwys yn nhablau StatsCymru ac wedi cael eu dileu o'r daenlen.

Os bydd angen i chi gael data nad ydynt ar gael i chi mwyach, cysylltwch ag ystadegau@medr.cymru a byddwn yn anfon y data perthnasol atoch. Gallwn hefyd ystyried ychwanegu unrhyw dablau sydd ar goll.

### Newydiadau yn y data

Mae data wedi cael ei ychwanegu ar gyfer:

- Canlyniadau yn ôl statws anabledd
- Canlyniadau yn ôl statws anghenion dysgu ychwangeol/anghenion adysgol arbennig

Mae data wedi caeil ei addasu ar gyfer:

- Mae amddifadedd bellach yn defnyddio cwintelau yn lle degraddau

## Atal mesurau perfformaid yn 2019/20 a 2020/21

Dros ddwy flynedd gyntaf y pandemig, parhawyd i gynnal prentisiaethau dysgu, ond effeithiodd ffyrlo a diswyddiadau ar rai prentisiaid. Cafodd rhai asesiadau eu canslo, eu hoedi neu eu haddasu ar gyfer y ddau fath o ddarpariaeth.

Oherwydd newidiadau i'r modd y dyfarnwyd graddau yn 2020, a'r ffaith bod y pandemig wedi tarfu ar y dysgu, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynhyrchu unrhyw fesurau perfformiad arferol ar gyfer ysgolion neu ddysgu ôl-16 yn 2019/20 na 2020/21.

Ar gyfer pob math o ddysgu ôl-16, cyfrifwyd ystadegau drwy ddefnyddio dulliau newydd o asesu sut yr effeithiwyd ar ddeilliannau dysgu yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys ystadegau newydd ar hyd yr oedi cyn cwblhau dysgu ac ar ddewisiadau dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n mynd i ddysgu ôl-16. Adroddwyd amdanynt yn adroddiadau'r

Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (Covid-19). Ni ddylid cymharu’r ystadegau yn adroddiadau'r pandemig â’r mesurau deilliannau dysgwyr a adroddir yn y datganiad hwn.

## Gwella ystadegau dysgu cymundeol awdurdo lleol

Cafodd data ar ddysgu cymunedol awdurdod lleol eu gohirio y llynedd am i ddarparwr roi gwybod bod gwallau sylweddol yn y data a gyflwynwyd ganddo i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer 2023/24.

Gwnaethom ymchwilio i'r posibilrwydd bod y mater yn effeithio ar awdurdodau lleol eraill. Cafodd nifer y gweithgareddau dysgu a gynhaliwyd gan bob darparwr ei gymharu â'r lefelau cyllid, a chysylltwyd ag awdurdodau lleol â phatrymau afreolaidd. Ni ddaethpwyd o hyd i broblemau.

Cywirwyd y data ar gyfer 2023/24, ac ni chafodd patrymau tebyg eu darganfod yn 2024/25.

Ariennir Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Dysgu Cymunedol. Yn y gorffennol bu'r grant yn ffynhonnell cymharol fach o gyllid. Yn wahanol i fathau eraill o ddysgu, ni chaiff data'r LLWR eu defnyddio i ddyrannu na dilysu'r dysgu a ddarperir drwy'r grant hwn. O ganlyniad i hyn, ceir mwy o botensial am broblemau'n gysylltiedig ag ansawdd data na fyddent yn effeithio ar addysg bellach na dysgu seiliedig ar waith.

O hyn ymlaen, bydd y ffordd y caiff cyllid ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ei fonitro'n dibynnu ar y data y bydd darparwyr yn eu cyflwyno drwy system Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn unig. Mae hyn yn newid sylweddol: cyn hyn, ar gyfer adroddiadau ar fesurau perfformiad y mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru wedi cael eu defnyddio'n bennaf ond, o 2026/27 ymlaen, byddant yn cael dylanwad uniongyrchol ar adroddiadau ac archwiliadau cyllid diwedd blwyddyn.

Mae'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Gorffennaf 2026 yn gweithredu fel cyfnod pontio tuag at hyn.

Mae rhai newidiadau wedi dechrau'n barod, gan gynnwys gwelliannau i'r ffordd y caiff data eu casglu a'u gwirio, ac mae canllawiau manwl wedi cael eu cyhoeddi yn nogfen y fanyleb ar gyfer rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned. Bydd diweddariadau pellach yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwneud y system yn fwy cywir a chyson. Mae'r cod cyllid ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol yn cael ei ddatblygu i gyfateb yn uniongyrchol i'r cod cyllid addysg bellach ar gyfer darpariaeth ran-amser.

Hefyd, mae'r dyraniad cyllid wedi cael ei fapio i rychwanatu'r flwyddyn academaidd yn hytrach na'r flwyddyn ariannol fel o'r blaen, er mwyn sicrhau cysondeb pellach rhwng y Grant Dysgu Cymunedol a'r ffordd y caiff addysg ôl-16 ran-amser ei darparu'n gyffredinol.

Gan y bydd y gallu i adhawlio yn y dyfodol yn dibynnu ar y wybodaeth a gyflwynir i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, mae gan ddarparwyr gymhelliant llawer cryfach i sicrhau bod eu data'n gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cyflwyno ar amser. Po agosaf yw'r cysylltiad rhwng data a chyllid, pwysicaf yw hi i bawb sicrhau bod y data'n gywir – ac felly rydym yn disgwyl y bydd ansawdd cyffredinol data yn gwella.

## Datganiad cydymffurfiaeth â'r cod ymarfer ar gyfer ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Daw'r data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Defnyddir y data hyn hefyd i benderfynu ynghylch cyllid i ddarparwyr dysgu, ac maent yn destun archwiliad.

Pan gyflwynir y data, rhaid iddynt fodloni rhai rheolau dilysu. Pan gaiff yr ystadegau eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i roi cipolwg ar y ddarpariaeth dysgu yng Nghymru. Cânt eu defnyddio er mwyn monitro a gwerthuso'r sectorau dysgu oedolion, addysg bellach a dysgu yn y gwaith.

## Newid statws ystadegau achrededig

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Gwladol (a elwir bellach yn Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan fod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi'i ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â systemau a phrosesau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau, ac mae'r ystadegwyr sy'n cynhyrchu'r ystadegau'n cynnwys ystadegwyr a gynhyrchodd ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) yn asesu'r prosesau sydd ar waith ym Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd yr OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n bodloni'r gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

## Ystadegau cysylltiedig

Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

- Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd.
- Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol – Ystadegau ar ddysgwyr cofrestredig a'u gweithgareddau.
- Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad) – Ystadegau ar gyflawniad dysgwyr mewn sefydliadau AB (sy'n deillio o ddata LLWR) a chweched dosbarth mewn ysgolion (sy'n deillio o ffynonellau data ysgolion)
- Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr) – Ystadegau ar gyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn y flwyddyn ar ôl eu rhaglen ddysgu ôl-16.

## Y diweddariad nesaf

**Dyddiad:** Chwefror 2027.

Cyfnod a drafodir: Awst 2025 i Orffennaf 2026.

Mae'n bosibl na fydd y diweddariad nesaf i'r ystadegau hyn ar yr un ffurf â'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: ystadegau@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**